Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Y Manod

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Un o rinweddau nodedig Ysgol Y Manod yw'r ymdeimlad gofalgar a chartrefol sy'n bodoli ynddi. Mae'r holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu ethos parchus a chynhwysol. Maent yn barod i wrando ar bryderon y disgyblion ac ymateb yn briodol iddynt bob tro.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Mae'r rhai sy'n hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn magu hyder i gyfathrebu'n gyflym ac yn gwneud cynnydd cadarn gyda'r iaith. Mae staff yn darparu amrediad cyfoethog o brofiadau dysgu sy'n ysbrydoli ac ehangu gorwelion y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r disgyblion yn dangos gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol ynghyd â balchder yn eu hysgol. Mae naws Gymreig amlwg yn bodoli yn yr ysgol.

Mae'r pennaeth mewn gofal yn darparu arweinyddiaeth ofalgar a phwrpasol. Caiff ei gynorthwyo'n gadarn gan staff a chorff llywodraethol deallus sydd â throsolwg glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae blaenoriaethau'r ysgol, ar y cyfan, yn deillio o adnabyddiaeth addas arweinwyr o'u hysgol. Fodd bynnag, nid yw'r prosesau gwerthuso, cynllunio a gweithredu ar gyfer gwelliant yn ddigon clir a phenodol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau yn gadarn ac mae eu gwaith yn cael ei arddangos a'i ddathlu'n ddeniadol o gwmpas yr ysgol. Er hyn, cyfyng yw'r cynnydd ym medrau darllen disgyblion. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i gywain gwybodaeth o wahanol destunau ac ar eu mwynhad o ddarllen. Mae gan staff ddealltwriaeth gadarn o gynnydd pob disgybl. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yn annibynnol er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Drwyddi draw, yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r disgyblion yn ymroddgar ac yn adeiladu ar ddysgu blaenorol yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn barod i drafod eu barn yn aeddfed gyda'u cyfoedion a chyfrannu eu syniadau'n llwyddiannus. Er hyn, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd digon cyson i gymryd rhan flaenllaw i gyfrannu at fywyd a gwaith ehangach yr ysgol.

# Argymhellion

**A1** **Cryfhau'r prosesau gwerthuso, cynllunio a gweithredu i ymateb yn fwy penodol ac amserol i feysydd yr ysgol i'w gwella**

**A2** **Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth athrawon yn annibynnol er mwyn gwella ansawdd eu gwaith a gwneud dewisiadau am sut i gyflwyno eu dysgu**

**A3** **Datblygu medrau darllen disgyblion**

**A4** **Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Manod |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 109 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 82 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 14 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 13.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 25.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 81.7% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/02/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 20/05/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/07/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.